Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

1 Rhagfyr 2017

Annwyl Eluned

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19**

Y cefndir

Diolch ichi am ddod i gyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 16 Tachwedd i drafod cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

Cyn y cyfarfod, gofynnodd y Pwyllgor am ystod o wybodaeth am y rhannau hynny o'r gyllideb yr ydych chi bellach yn gyfrifol amdanynt ac sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Gwnaeth Gweinidog blaenorol y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ddarparu papur i ni, dyddiedig 8 Tachwedd, a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ynghyd â'r agenda a'r papurau eraill ar gyfer ein cyfarfod ar 16 Tachwedd.

Ar yr achlysur hwn, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu peidio â chyflwyno adroddiad ffurfiol ar y gyllideb i'r Cynulliad, ond serch hynny byddai'n ddiolchgar o gael ymateb gennych i'r pwyntiau a nodir isod. Byddwn yn cyhoeddi eich ymateb a byddai'n ddefnyddiol pe gallech ei ddarparu cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol, a gynhelir ym mis Ionawr yn ôl yr hyn a ddeallaf.

Materion Penodol

*Gwariant cyffredinol ar y Gymraeg*

Nododd y Pwyllgor y cynnydd cyffredinol o £2.1 miliwn mewn gwariant cyffredinol a nodwyd ar y Gymraeg yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg. O ystyried y pwysau cyffredinol ar gyllideb Llywodraeth Cymru, mae'r ymrwymiad hwn i'r iaith i'w groesawu. Serch hynny, er bod y Pwyllgor wedi croesawu uchelgais cyffredinol strategaeth Cymru 2050 yn y gorffennol, nodwyd hefyd nad yw'r Pwyllgor wedi ei argyhoeddi bod asesiad llawn wedi'i wneud eto o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r uchelgais hwn. Hoffem weld mwy o eglurder ynghylch yr adnoddau y bydd eu hangen dros y tymor canolig a'r tymor hir.

*Cymraeg 2050 – proffil gwariant pum mlynedd*

Er mai'r nod cyffredinol yw miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gwnaethoch chi a'ch swyddogion nodi eich bod yn ceisio rhannu'r broses yn gyfres o gerrig milltir pum mlynedd at ddibenion cynllunio a monitro.  O gofio hynny, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ddadansoddiad o'r gwariant a broffiliwyd ar gyfer y maes hwn dros y pum mlynedd nesaf ochr yn ochr â'r amcanion penodol y bwriedir gwario'r cyllid hwn arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod efallai na fydd llawer o'r gwariant dan sylw wedi'i nodi ar wahân ar hyn o bryd, yn enwedig o ran gwariant cyffredinol ar addysg.  Fodd bynnag, gwnaethoch gydnabod yn eich sylwadau i'r Pwyllgor y bydd yn bwysig edrych ar y mater hwn mewn ffordd draws-lywodraethol.  Mae hefyd yn bwysig ar y cychwyn cael syniad clir o'r adnoddau y bydd eu hangen a'r rhagdybiaethau cynllunio sy'n sail i'r adnoddau hynny.

*Cefnogaeth i Mudiad Meithrin*

Yn ein hadroddiad, 'Gwireddu'r Uchelgais', tynnwyd sylw at asesiad Mudiad Meithrin y byddai angen 650 o grwpiau newydd dros oes strategaeth Cymraeg 2050. Gwnaethoch egluro bod y cynnydd gan 40 yn nifer y cylchoedd chwarae Mudiad Meithrin rhwng nawr a 2021, gan gynyddu i 150 o grwpiau chwarae dros y degawd nesaf, yn ddigonol er mwyn cyrraedd y targed. Bydd y £1 miliwn ychwanegol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer Mudiad Meithrin yn galluogi i hyn ddigwydd.

Er gwaethaf hynny, mae gwahaniaeth clir rhwng yr asesiad cynharach a ddarparwyd i'r Pwyllgor a'r cynnydd a gynllunnir erbyn hyn. Roeddem yn ddiolchgar am yr esboniad mewn tystiolaeth bod hyn, i raddau helaeth, oherwydd gwahaniaethau wrth ddiffinio beth yw Cylch Meithrin, gyda rhai sesiynau, er enghraifft, ar wahanol adegau o'r dydd yn cael eu cofrestru fel grwpiau ar wahân. Felly, gallai nifer llai o grwpiau ychwanegol gyrraedd yr un nod â'r hyn a amlinellwyd gan Mudiad Meithrin yn ei dystiolaeth gynharach.

Ers hynny, mae Mudiad Meithrin wedi rhoi gwybod i swyddogion y Pwyllgor ei fod yn cytuno â'r asesiad hwn.  Cawsom lythyr hefyd gan Mudiad Meithrin, sy'n croesawu'r cyllid ychwanegol ac yn esbonio ymhellach ynglŷn â rhywfaint o'r gwaith y bydd yn ei wneud yn y maes hwn.  Atodaf gopi o'r llythyr i'w gofnodi'n gyhoeddus.

*Cynllun Sabothol*

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon o'r blaen ynglŷn â'r canfyddiad o effeithiolrwydd y Cynllun Sabothol a'r diffyg prosesau gwerthuso. Fel y nodwyd yn 'Gwireddu'r Uchelgais' nid yw'n ymddangos bod llawer iawn o dystiolaeth bod mynd ar gyrsiau wedi creu budd yn yr ystafell ddosbarth, naill ai o ran gwell canlyniadau i ddisgyblion neu o ran cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg y gweithlu addysg. Roedd eich tystiolaeth yn awgrymu bod newidiadau yn cael eu gwneud i'r cynllun, a allai helpu i fynd i'r afael â rhai o'n pryderon.

Gwnaethoch gytuno i ystyried ein pryderon a byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod eich barn ynghyd â rhagor o wybodaeth am sut y gallai'r newidiadau i'r cynllun helpu i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

*Hybu'r Iaith – gweithio gyda busnesau bach a chanolig*

Gwnaethoch gadarnhau y bwriedir i'r cyllid o £400,000 i helpu busnesau bach a chanolig gynyddu eu defnydd o'r iaith yn 2017-18 barhau yn 2018-19. Yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfarfod, mae'r cyllid hwn yn cefnogi 10 o swyddogion, a gyflogir dan gontract gan Lywodraeth Cymru i weithio mewn cymunedau gyda'r Mentrau Iaith.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth bellach y gallwch ei darparu ar sut y bydd y cynllun yn gweithio a'r rhesymau pam y dewiswyd y dull penodol hwn. Byddai hefyd yn ddefnyddiol gwybod pa ganlyniadau penodol y bwriedir eu cyflawni drwy'r cynllun, a sut y bydd ei lwyddiant yn cael ei werthuso yn y dyfodol.

*Llinell Wariant y Gyllideb (BEL) y Gymraeg*

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ddadansoddiad manwl o'r £3.9 miliwn o fewn BEL y Gymraeg (6020). Nododd eich swyddogion hefyd fod gwallau yn y BEL hwn yn 2017-18 a bod y gyllideb bresennol bellach yn cywiro'r gwallau hynny. Byddai'n ddefnyddiol cael esboniad ar gyfer y cofnod beth yn union oedd y gwallau a sut y maent wedi cael eu cywiro nawr.

*Cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg*

Roedd y papur cefndirol a ddarparwyd gan eich rhagflaenydd yn nodi y byddai'r gost o gyflwyno Deddf y Gymraeg newydd yn cael ei thalu o fewn y cyllidebau presennol. Gwnaed y pwynt yn ystod y cyfarfod ei bod yn anodd credu na fyddai Bil newydd yn arwain at oblygiadau ariannol ar gyfer BEL y Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi y gallai fod yn rhy fuan i chi fod wedi llunio amcangyfrifon manwl o unrhyw gostau ychwanegol, serch hynny nid yw'n

afresymol gofyn a ydych yn cynllunio ar y sail y bydd costau ychwanegol ac, os felly, lle y gellid gwneud arbedion er mwyn bodloni'r costau hyn.

*BEL Codi Safonau Ysgolion*

Dyrannwyd £4.2 miliwn o fewn y BEL Codi Safonau Ysgolion i gefnogi'r gwaith o addysgu a dysgu Cymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyllid hwn i fod i gynyddu gan £680,000 y flwyddyn nesaf a chan £250,000 y flwyddyn ganlynol. Byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor wybod faint o fewnbwn fydd gennych o ran defnyddio'r gwariant hwnnw a'ch rôl mewn penderfyniadau cyllidebol yn y dyfodol, fel Gweinidog y Gymraeg, o gofio bod y BEL hwn yn rhan o bortffolio y Gweinidog Addysg.

*Cefnogaeth Ryngwladol*

Nododd y Pwyllgor fod peth cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer cefnogi'r iaith ym Mhatagonia.

Mae Ysgol Gymraeg Llundain yn agosáu at ei phen-blwydd yn 60 oed a byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod a ydych yn bwriadu cynnig unrhyw arian iddi yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn gywir

**Siân Gwenllian AC**
Cadeirydd Dros Dro